



Royal College
of Physicians

NACAP

Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD (NACAP)

Gofal eilaidd – archwiliad o asthma
plant a phobl ifanc

Gwybodaeth i rieni
a gofalwyr





Beth yw archwiliad asthma plant a phobl ifanc NACAP?

Rydych chi wedi cael y daflen hon gan fod gan eich plentyn asthma. Mae'n rhoi gwybod i chi am yr archwiliad clinigol cenedlaethol sy'n cael ei gynnal a sut y gellir defnyddio eich gwybodaeth.

Mae archwiliadau clinigol yn holi cwestiynau am y gofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion megis:

- > Beth ddylem ni fod yn ei wneud?
- > Beth ydym ni'n ei wneud?
- > Sut gallwn ni wella?

Mae'r archwiliad hwn yn edrych ar y gofal y mae plant a phobl ifanc ag asthma yn ei gael pan fydd yn rhaid iddynt fynd i'r ysbyty oherwydd pwl o asthma. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei chymharu â chyfres o ganllawiau asthma.

Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu am fy mhentyn?

O fis Mehefin 2019 tan o leiaf fis Chwefror 2021, bydd ysbysai'r GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n derbyn plant a phobl ifanc â phylliau o asthma yn casglu'r canlynol:

- > gwybodaeth bersonol (gyfrinachol): rhif GIG eich plentyn (neu CHI yn yr Alban), ei ddyddiad geni, ei ryw, a'i god post
- > gwybodaeth am y driniaeth a'r gofal y mae eich plentyn yn ei gael.

Mae mwy o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei gasglu ar ein gwefan: www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma

Pam fod hyn o gymorth?

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn dangos pa rannau o'r gofal asthma i blant a phobl ifanc sy'n dda, a pha rannau mae angen eu gwella. Bydd yr archwiliad hefyd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd y gofal ar gael i'r cyhoedd.

Mae angen manylion cyfrinachol er mwyn cysylltu'r wybodaeth a gesglir yn yr archwiliad hwn â ffynonellau eraill. Rydym yn gwneud hyn er mwyn i ni allu dilyn gofal eich plentyn os caiff ei drin ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd. Rydym yn casglu gwybodaeth am ryw er mwyn gweld a yw hyn yn effeithio ar y driniaeth a gaiff.

Sut rydym yn cadw gwybodaeth eich plentyn yn ddiogel? Rydym bob amser yn sicrhau bod gan y rheini rydym yn cytuno i rannu data â nhw ganiatâd cyfreithiol priodol i wneud hynny, ac yn dilyn yr arfer gorau o ran diogelu data a diogelwch.

Ble mae gwytodaeth gyfrinachol fy mhientyn yn mynd?

Mae ysbytai sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad hwn yn ychwanegu'r wybodaeth (neu'r data) maent yn ei chasglu am gleifion a'u gofal i gronfa ddata ar-lein o'r enw 'adnodd-gwe'. Bydd y data yn cael ei gadw yno dros gyfnod yr archwiliad ac yna am 5 mlynedd arall yn unol â chanllawiau'r GIG.

Caiff y data ei gadw gan sefydliad o'r enw Crown Informatics sy'n gyfrifol am greu'r adnodd-gwe archwilio. Mae'n bosib y bydd staff Crown Informatics yn gweld manylion personol fel rhif GIG neu CHI, cod post, a rhyw fel rhan o waith gweinyddu'r gronfa ddata.

Bydd Crown Informatics yn dileu gwytodaeth fyddai modd ei defnyddio i adnabod eich plentyn ac yn ei hanfon i Goleg Imperial Llundain, sy'n dadansoddi'r data. Yna, maent yn anfon canlyniadau'r dadansoddiad at dîm NACAP yng Ngholeg Brenhinol y Meddygon i lunio adroddiadau. Nid yw tîm NACAP yn gweld gwytodaeth am blant neu bobl ifanc unigol.

O bryd i'w gilydd, bydd Crown Informatics hefyd yn anfon data eich plentyn i nifer o sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban er mwyn ei gysylltu â ffynonellau eraill.

Maent yn anfon rhif GIG neu CHI, dyddiad geni a data cod post i NHS Digital, NWIS (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) ac eDRIS (Gwasanaeth Ymchwil ac Arloesedd Data Electronig). Mae gan NHS Digital gofnod o'r holl dderbyniadau i ysbytai o set ddata Hospital Episode Statistics (HES) yn Lloegr. Caiff NWIS ac eDRIS y data hwn o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) a'r Information Services Division (ISD) yn yr Alban, yn y drefn honno. Bydd data HES, PEDW ac ISD yn cael ei

gysylltu â data'r archwiliad. Bydd NHS Digital hefyd yn darparu cofnodion cofrestr sifil dyddiad ac achos marwolaeth ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer Cymru a Lloegr. eDRIS fydd yn darparu hyn ar ran Cofnodion Cenedlaethol yr Alban.

Ar ôl i Crown Informatics gael y data 'cysylltiedig' hwn yn ôl, bydd yn dileu'r dynodwyr ac yn ei anfon i Goleg Imperial Llundain i'w ddadansoddi a'i grwpio. Yna bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â thîm NACAP i lunio adroddiadau canlyniadau.

Gallwch weld cynrychiolaeth graffigol o 'lif y data' ar ein gwefan yn

www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma

Sut bydd yr wybodaeth am fy mhientyn yn cael ei defnyddio?

Bydd ysbytai yn cael eu hadroddiadau eu hunain am y gofal maent yn ei ddarparu i blant a phobl ifanc ag asthma. Bydd yr adroddiadau'n cymharu ysbytai â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn helpu ysbytai i weld pa mor dda yw eu gofal.

Bydd adroddiadau cenedlaethol ac adroddiadau cleifion ar gael hefyd i'r cyhoedd ar wefan yr archwiliad. Efallai y byddwn yn defnyddio'r data a gesglir i lunio papurau academaidd.

Gall sefydliadau trydydd parti hefyd ofyn am gael defnyddio'r data at ddibenion ymchwil, archwilio a gwerthuso gwasanaethau.

Prif ddefnydd y data bob amser fydd gwella gofal a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag asthma. Ni fydd y data hwn fel arfer yn cynnwys dynodyddion personol (fel dyddiad geni neu rif GIG/CHI eich plentyn). Fodd bynnag, mewn achosion prin iawn efallai y bydd angen i ni rannu'r rhain am resymau statudol. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw ddata oni bai fod trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith er mwyn cadw eich manylion yn saff a diogel. Os oes angen

mwy o ddata ar drydydd parti nag yr ydym yn ei gasglu yn yr archwiliad i ateb eu cwestiynau, efallai y byddant hefyd angen 'cysylltiad' â ffynonellau gwybodaeth eraill. Yn yr achosion hyn, byddwn yn anfon data sy'n dangos pwy yw claf at y sefydliadau GIG a restrwyd yn flaenorol. Prif ddefnydd y data bob amser fydd gwella gofal a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag asthma.

Pam nad yw staff yr ysbyty wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth fy mhentyn?

Mae gan yr archwiliad hwn ganiatâd cyfreithiol arbennig i gasglu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd rhiant/gofalwr neu glaf.

Y rheswm am hyn yw oherwydd y gall fod yn anodd gofyn i gleifion neu eu rhieni/gofalwyr pan maen nhw neu eu plentyn yn cael pwl o asthma.

Efallai y bydd rhai cleifion yn ei chael yn anodd cyfathrebu ac efallai na fydd gan rai berthnasau gyda hwy a all gyfleu eu dymuniadau ar eu rhan. Mae pwl o asthma yn amser gofidus iawn i'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr, ac nid eu holi am yr archwiliad ar yr adeg hon fyddai'r flaenoriaeth bwysicaf.

Dweud 'dim diolch'

Mae archwiliadau clinigol cenedlaethol yn gweithio orau pan fyddant yn cynnwys gwybodaeth gan gynifer o gleifion â phosib. Fodd bynnag, siaradwch ag aelod o dîm clinigol eich plentyn os nad ydych am i'w wybodaeth gael ei chynnwys.

Ni fydd dweud hyn yn effeithio ar ei ofal na'i driniaeth mewn unrhyw ffordd. Byddant yn sicrhau nad yw gwybodaeth eich plentyn yn cael ei chynnwys yn yr archwiliad.

Os ydych chi'n credu bod gwybodaeth eich plentyn wedi'i chyflwyno i'r archwiliad a'i bod yn well gennych iddi gael ei dileu, cysylltwch â'r ysbyty sy'n trin eich plentyn neu dîm NACAP (gweler y manylion isod).

Yn Lloegr, ni chaiff pobl ifanc dros 13 oed, neu rieni/gofalwyr plant dan 13 oed, sydd wedi dewis eithrio eu data cyfrinachol o gael ei ddefnyddio at ddibenion ar wahân i'w gofal a'u triniaeth nhw eu hunain (Rhaglen Genedlaethol Eithrio Data) eu cynnwys yn yr archwiliad hwn. Nid oes gan Gymru a'r Alban raglen eithrio genedlaethol ond gall rhieni/gofalwyr neu gleifion optio allan o archwiliadau unigol, megis hwn.

Pwy sy'n cynnal yr archwiliad?

Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) sy'n comisiynu NACAP, a Choleg Brenhinol y Meddygon sy'n ei redeg.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiwn holwch staff yr ysbyty a roddodd y daflen hon i chi neu cysylltwch â thîm NACAP drwy:

E-bost: asthma@rcplondon.ac.uk
Ffôn: **020 3075 1526**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am archwiliad asthma plant a phobl ifanc NACAP yn: www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma

Comisiynwyd gan:



Royal College
of Physicians



HQIP

Healthcare Quality
Improvement Partnership

